Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/42/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

10 Chwefror 2023

Annwyl Huw,

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023 - Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 (gwariant mewn perthynas â chyfiawnder) a gwaith craffu cyffredinol

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 3 Chwefror. Byddaf yn darparu atebion i'ch cwestiynau erbyn 23 Chwefror yn y ffordd arferol.

Gofynnoch am atebion i gwestiynau 7 i 10 ar gyfraith yr UE a ddargedwir erbyn 10 Chwefror. Mae'r atebion hynny i'w gweld yn yr atodiad amgaeedig.

Yn gywir,

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

7. A fyddech chi cystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gydweithio rhynglywodraethol a rhoi gwybod am unrhyw gynlluniau ar y cyd y cytunwyd arnynt hyd yma?

Rwyf wedi cadw mewn cysylltiad â Gweinidogion y DU i fynegi'r pryderon sylweddol a pharhaus sydd gan Lywodraeth Cymru ynghylch agweddau ar y Bil sydd wedi cael eu hamlinellu yn flaenorol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Llywodraethau Datganoledig eraill yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd ac adeiladol â'u cyd-swyddogion yn Llywodraeth y DU, yn ganolog a chyda'r adrannau polisi perthnasol, gan gynnwys trafod y posibilrwydd o gydweithio, er na chytunwyd ar unrhyw gynlluniau ffurfiol eto.

8. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd os bydd y Senedd yn gwrthod rhoi cydsyniad i'r Bil a sut y byddwch yn tynnu sylw Senedd y DU at unrhyw bryderon sydd gennych?

O dan amgylchiadau o'r fath, mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r ffordd gywir ymlaen fyddai i Lywodraeth y DU dynnu'r Bil yn ôl neu ei ddiwygio er mwyn sicrhau na fydd y dyddiad machlud yn berthnasol i gyfraith ddatganoledig. Byddem yn rhagweld, pe bai'r Senedd yn gwrthod rhoi cydsyniad i'r Bil hwn, y byddai'r Senedd yn rhoi gwybod i glercod Senedd y DU am y canlyniad hwnnw yn y ffordd arferol ac y byddai tudalennau gwe Senedd y DU ar gyfer y Bil hwn yn dangos safbwynt y Senedd.

9. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd os daw'r Bil yn gyfraith wedyn, heb y gwelliannau yr hoffech eu gweld yn cael eu gwneud?

Fel uchod, o dan amgylchiadau o'r fath, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd camau i leihau cymaint â phosibl ganlyniadau negyddol y Bil i bobl Cymru. Fodd bynnag, mae angen nodi'n fwy manwl y camau penodol y byddai angen inni eu cymryd unwaith ein bod wedi cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnom gan Lywodraeth y DU am ei bwriadau ar gyfer yr eitemau o gyfraith yr UE a ddargedwir y mae'n gyfrifol amdanynt, ac yn dibynnu ar unrhyw newidiadau i'r Bil wrth iddo fynd drwy brosesau Senedd y DU.

10. A yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod gan y Senedd y cymhwysedd deddfwriaethol i gyflwyno Bil i Gymru a fyddai'n diwygio Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (os a phan y'i deddfir) er mwyn diwygio'r dyddiad machlud fel y mae'n gymwys ar hyn o bryd ar gyfer cyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig? A yw Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno Bil o'r fath os bydd y dyddiad machlud, sef 31 Rhagfyr 2023, yn parhau yn y Bil?

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried pob opsiwn ar gyfer lleihau cymaint â phosibl effaith negyddol y Bil ar bobl Cymru. Fel sy'n wir mewn unrhyw sefyllfa, pe bai Llywodraeth Cymru am gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol, byddai angen iddi gael ei bodloni bod y ddeddfwriaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.